OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2912

# Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005

## RHAN 1

Cyflwyniad

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Hydref 2005

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### Dirymu, arbedion a darpariaethau trosiannol

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion Newydd wrth Drosi i Fframwaith Newydd) 1998(**1**) yn cael eu dirymu mewn perthynas â Chymru.

(2) Mae Rhannau I i V, VII ac VIII o Reoliadau Addysg (Ysgolion Newydd) (Cymru) 1999(**2**) ("Rheoliadau 1999") yn cael eu dirymu heblaw fel y darperir ym mharagraffau (3) a (4).

(3) Bydd Rhan I o Reoliadau 1999 yn dal yn effeithiol i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan VI.

(4) Bydd Rhannau I i IV o Reoliadau 1999 yn dal yn effeithiol mewn perthynas ag unrhyw gorff llywodraethu dros dro a sefydlir cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

### Dehongli

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "athro neu athrawes ysgol" yr ystyr a roddwyd i "*school teacher*" gan adran 122 o Ddeddf 2002;

ystyr "awdurdod addysg lleol" ("*local education authority*") yw'r awdurdod addysg lleol y cynhelir ysgol a gynhelir ganddo neu y bwriedir i ysgol arfaethedig o'r fath gael ei chynnal ganddo;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**3**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000(**4**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

mae i "disgybl" yr ystyr a roddwyd i "*pupil*" gan adran 3 o Ddeddf Addysg 1996(**5**);

(**1**) O.S. 1998/3097.
(**2**) O.S. 1999/2243 (Cy.3).
(**3**) 1996 p.56.
(**4**) 2000 p.21.
(**5**) Diwygiwyd adran 3 gan baragraff 34 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002.

mae "pennaeth" ("*head teacher*") yn cynnwys person sydd wedi'i benodi'n bennaeth ysgol newydd ond sydd heb ymgymryd â'r swydd eto;

ystyr "y Rheoliadau Llywodraethu" ("*the Government Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(**6**); ac

mae i "ysgol newydd" yr ystyr a roddwyd i "*new school*" gan adran 72(3) o Ddeddf 1998.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at ysgol y mae ganddi gyllideb ddirprwyedig i'w dehongli yn unol ag adran 39(2) o Ddeddf 2002.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr yr "addasiadau cyffredinol" yw'r addasiadau canlynol i'r Rheoliadau Llywodraethu—

(a) mae "ysgol newydd" yn disodli "ysgol" ac "ysgol a gynhelir";

(b) mae "dros dro" yn cael ei fewnosod ar ôl y geiriau "corff llywodraethu", "llywodraethwr" a "swydd llywodraethwr";

(c) mae cyfeiriadau at gategori penodol o lywodraethwr i'w darllen fel cyfeiriadau at y categorïau cyfatebol o lywodraethwr dros dro sydd wedi'u nodi yn Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn; ac

(ch) mae cyfeiriadau at bennaeth i gynnwys person sydd wedi'i benodi'n bennaeth ysgol newydd ond sydd heb ymgymryd â'r swydd eto.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn—

(a) at bwyllgor yn gyfeiriad at bwyllgor sydd wedi'i sefydlu gan y corff llywodraethu dros dro ac y mae'r corff llywodraethu dros dro wedi dirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau statudol iddo;

(b) at gorff llywodraethu dros dro yn gyfeiriad at gorff llywodraethu dros dro unrhyw ysgol neu ysgol arfaethedig y mae'r ddarpariaeth yn gymwys mewn perthynas â hi;

(c) at lywodraethwr dros dro o gategori penodol i'w ddehongli yn unol â Rhan 3.

(5) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn—

(a) at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;

(b) at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddynt;

(c) at is-baragraff â rhif yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y paragraff y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo.

### Cyflwyno hysbysiadau

**4.** Rhaid i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno o dan y Rheoliadau hyn gael ei gyflwyno yn unol ag adran 572 o Ddeddf 1996.

(**6**) O.S. 2005/2914 (W.211).